



**Comisiwn
y Gyfraith**
Diwygio'r gyfraith

Comisiwn y Gyfraith

Cynllun Busnes 2021-22

Gair o Groeso gan y Prif Weithredwr



Wrth edrych yn ôl ar Gynllun Busnes y llynedd mae'n hawdd anghofio yn mha amgylchiadau y cafodd ei lunio. Roeddem yn nyddiau cynnar y Pandemig ac roeddem, yn bersonol ac yn broffesiynol, yn wynebu ansicrwydd mawr. Ni fyddai neb wedi dychmygu y byddai mwy na blwyddyn yn mynd heibio cyn y byddai llawer ohonom yn gweld ein gilydd eto.

Rwyf mor falch o'r rhan mae pawb yn y Comisiwn wedi'i chwarae i gynnal y sefydliad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mi wnaethom y gorau o weithio rhithiol i'n helpu i gefnogi ein gilydd, nid yn unig o ran digwyddiadau cymdeithasol, ond i gadw mewn cysylltiad drwy waith ein Pwyllgor Cymdeithasol a'r Cynghreiriaid Iechyd Meddwl, sydd wedi trefnu sgysiau wythnosol dros goffi a sesiynau codi ymwybyddiaeth. Rydym hefyd wedi parhau i gyflawni. Mae ein gwaith diwygio'r gyfraith wedi parhau ac rydym hefyd wedi ymgymryd â gwaith proffil uchel newydd. Yn bendant, ni fydd rhai o'r amcanion a oedd yng nghynllun y llynedd wedi gwneud y cynnydd y byddem wedi'i ddymuno ond nid wyf yn teimlo ein bod ychwaith wedi sefyll yn ein hunfan fel sefydliad. Er enghraifft, rwyf yn arbennig o falch ein bod wedi gwneud cynnydd ar nifer o fentrau Amrywiaeth a Chynhwysiant, er mwyn gallu cynnig, yn ddiweddarach eleni, nifer o interniaethau cyflogedig gyda Chomisiwn y Gyfraith. Rwyf yn ddiolchgar i bawb yn y Comisiwn am bopeth maent wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, nid yn unig i gadw'r busnes i fynd ond hefyd i'w ddatblygu fel sefydliad.

Hoffwn edrych yn ôl hefyd ar gyflawniad pwysig arall y 2020/21: cytundeb cyllido newydd a gafwyd â'r Arglwydd Ganghellor. Mae'r Cytundeb yn sicrhau bod y Comisiwn yn awr ar seiliau llawer cadarnach yn ariannol a dylai ein helpu i lunio 14eg Rhaglen Waith eang ac amrywiol sy'n seiliedig ar ble mae'r angen mwyaf i ddiwygio'r gyfraith ac nid ar argaeledd arian. Rwyf yn ddiolchgar iawn i bawb yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder am weithio â ni i gyflawni hyn ac edrychaf

ymlaen at ei weld yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus yn ystod 2021/22.

Wrth ysgrifennu hyn, mae'n amlwg nad ydym wedi gweld diwedd ar Covid eto, ond mae arwyddion y gallwn ni, fel sefydliad, ddechrau gofyn: beth nesaf? Mi wn nad ydym yn unigryw yn hyn o beth. Rwyf wedi siarad â llawer o gydweithwyr yn y sectorau cyhoeddus a phreifat ac maent i gyd yn ceisio ymgodymu â'r un materion.

Mae'r Cynllun Busnes hwn yn ymdrech i roi rhywfaint o drefn ar yr ansicrwydd rydym yn dal i'w wynebu. Yn fy marn i, mi fydd agwedd hyblyg a phwyllog yn allweddol i gyflawni amcanion y cynllun hwn, gan ddangos gallu i addasu sy'n seiliedig ar brofiad ac ar yr amodau ar y pryd. Yn fwy na dim, mae angen inni ddysgu beth sydd wedi gweithio'n dda yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a cheisio adeiladu ar hynny. Mae'n gwbl amlwg na fyddwn yn dychwelyd at yr hen drefn. Gweithio o gartref a chyfarfodydd rhithiol sy'n gyffredin bellach. Ar yr un pryd, rhaid inni sicrhau cydlyniant a pheidio colli golwg ar holl fuddiannau amhrisiadwy cysylltiadau wyneb yn wyneb, yn enwedig o safbwynt arloesi a chymdeithasu. Rwyf yn benderfynol o beidio â rhuthro pethau. Mae angen inni gymryd ein hamser i ddatblygu ffyrdd o weithio yn y dyfodol a fydd yn apelio at ein staff - gan helpu i gadw a recriwtio pobl - ond hefyd i sicrhau nad yw'r Comisiwn yn colli ei ffordd gydlynus o weithio. Bydd angen inni gael ein harwain gan ein rhanddeiliaid gan fod ein perthynas â hwy o bwys enfawr i'r Comisiwn; mewn rhai achosion, mae gweithio rhithiol wedi ein galluogi i gyrraedd cynulleidfah ehangach, ond mewn ffyrdd eraill efallai mai cyfarfodydd wyneb yn wyneb fyddai'r dewis a ffefrir. Ein tasg fydd canfod y cydbwysedd cywir ac, o fy safbwynt i, rwyf yn am weld honno'n broses gydweithredol lle'r ydym yn anghofio am yr hyn rydym yn ei ffafrio'n bersonol ac yn creu model sy'n sicrhau bod y Comisiwn yn addasu'n llwyddiannus i'r amgylchedd newydd yr ydym ynddo.

Phil Golding,
Prif Weithredwr Comisiwn y Gyfraith

Gair o Groeso gan y Prif Weithredwr

Un maes gwaith yr hoffwn roi sylw o'r newydd iddo yw ein gwaith yn ymwneud ag amrywiaeth a chynhwysiant. Rwyf yn credu y gallwn ddefnyddio ein statws fel sefydliad cyhoeddus i gynnig cyfleoedd i'r rhai hynny sydd wedi'u tangynrychioli yn y gyfraith, gan gydnabod, er bod modd inni elwa'n uniongyrchol, bod gennym ran ehangach i'w chwarae drwy wneud y proffesiwn cyfreithiol yn un mwy amrywiol. Rwyf yn falch ein bod wedi gallu sicrhau arian i recriwtio cydlynnydd amrywiaeth a chynhwysiant newydd. Er bod gan bawb yn y sefydliad ran i'w chwarae i hybu'r agenda hon, bydd y cydlynnydd yn helpu drwy roi cyfeiriad a sicrhau ein bod yn mesur cynnydd. Mae ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant yn disgrifio'n fwy manwl yr hyn y byddwn yn ymdrechu i'w wneud.

Ni fydd yn syndod rwy'n siŵr bod y Cynllun Busnes hwn yn adeiladu ar nifer o feysydd o gynllun y llynedd lle mae'r cynnydd yn amlwg wedi bod yn gyfyngedig. Er enghraifft, nid oedd modd inni ail-lansio cynlluniau'r Comisiynydd ac amrywiaeth cyfreithwyr gan fod y sawl a fyddai wedi hoffi cymryd rhan wedi bod yn ymateb i Covid.

Yn olaf, hoffwn ddiolch unwaith eto i bawb yn y Comisiwn am eu holl waith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rwyf yn credu y bydd y Comisiwn yn sefydliad cryfach yn sgil y profiad hwn ac yn un a fydd mewn sefyllfa dda i addasu i'r byd o'n cwmpas sy'n newid mor gyflym, boed hynny o ran cyflawni gwaith diwygio'r gyfraith neu fabwysiadu ffyrdd newydd o weithio. Rwyf hefyd yn hynod ddiolchgar i bawb rydym yn gweithio â hwy sydd wedi parhau i gefnogi ein prosiectau diwygio'r gyfraith.



Phil Golding,
Prif Weithredwr Comisiwn y Gyfraith

Ein blaenoriaethau

Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd ein gwaith yn canolbwyntio ar bedair blaenoriaeth.




**Sicrhau bod y gyfraith
yn deg, modern ac eglur**



**Sut yr ydym yn
ymgysylltu â rhanddeiliaid**




**Datblygu ein ffyrdd o wei-
thio ar gyfer y dyfodol**




**Gwella ein hymagwedd at
Amrywiaeth a
Chynhwysiant**



Allbynnau Allweddol 2021-22

	Mesur	Yn 2021-22, byddwn yn
 <p>Sicrhau bod y gyfraith yn deg, modern ac eglur</p>	<p>Gwneud argymhellion i Lywodraethau Cymru a'r DU sy'n gwella'r gyfraith gyfredol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Parhau i weithio ar brosiectau sy'n rhan o'r 13eg Rhaglen o ddiwygio'r gyfraith neu'r rhai a gafwyd fel Cyfeiriadau Gweinidogol.
	<p>Cynorthwyo Llywodraeth gyda'r ddau nod o sicrhau bod y gyfraith yn gydnerth a hefyd yn addasu'n bositif i amgylchiadau yn dilyn ein ymadawiad â'r UE.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Dylunio a gweithredu'r 14eg Rhaglen o ddiwygio'r gyfraith, yn dilyn ymgynghori cyhoeddus eang. Cyflawni prosiectau â phwyslais Cymreig a chanfod gwaith ar gyfer y dyfodol a fydd o fudd i bobl Cymru. Ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid i sicrhau bod gennym sylfaen dystiolaeth gref i hybu cynhwysiant posibl prosiectau yn y 14eg Rhaglen o ddiwygio'r gyfraith.
	<p>Sicrhau bod ein Rhaglen o ddiwygio'r gyfraith yn cael ei ffurfio gan gyfraniadau arbenigwyr, rhanddeiliaid â buddiant a'r cyhoedd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Meithrin partneriaethau cryf ar draws Whitehall i sicrhau bod y Comisiwn yn cyflwyno'r achos cryfaf posibl dros ddiwygio'r gyfraith mewn amgylchiadau anodd ac ansicr, er enghraifft, drwy: <ol style="list-style-type: none"> ymgysylltu'n effeithiol â Rhif 10 Stryd Downing, y Senedd, y farnwriaeth ac Adran Gyfreithiol y Llywodraeth; a cynnal sesiwn bord gron â chydweithwyr polisi yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder i benderfynu ar waith y dyfodol.
	<p>Gweithredu model cyllido newydd Comisiwn y Gyfraith.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Gweithio â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i sicrhau bod y 14eg Rhaglen o ddiwygio'r gyfraith sy'n cael ei datblygu yn ystyried y model cyllido newydd y cytunwyd arno gyda'r Arglwydd Ganghellor. Sicrhau y rhoddir ystyriaeth i'r model newydd wrth gytuno ar Gyfeiriadau Gweinidogol, boed o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder neu rannau eraill o Whitehall.
	<p>Sicrhau bod yr arferion gorau i ddiwygio'r gyfraith yn cael eu rhannu â phob tîm a'n bod yn sicrhau cysondeb yn ein ffordd o weithio pan yn bosibl.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Parhau i ddatblygu ac ymgorffori Llawlyfr Diwygio'r Gyfraith yn arferion gweithio Comisiwn y Gyfraith ar bob lefel. Treialu Bwrdd Rhaglen newydd i roi oruchwylio portffolio prosiectau Comisiwn y Gyfraith.

Allbynnau Allweddol 2021-22

	Mesur	Yn 2021-22, byddwn yn
 <p>Sut yr ydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid</p>	<p>Bod yn sefydliad sy'n ehangu ei orwelion, gan ddylanwadu ar farn gartref a thramor.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu ymhellach ein perthynas â'r byd academiaidd gyda'r bwriad o sicrhau gwell cydweithrediad rhwng Comisiwn y Gyfraith a'r byd academiaidd. Ymgymryd â gweithgarwch rhyngwladol penodol, gan gynnwys cymryd rhan mewn digwyddiadau sy'n ymwneud â rheolaeth y gyfraith. Ymgymryd â nifer o sesiynau rhithiol â Chomisiynau'r Gyfraith cyfatebol ledled y byd i rannu arferion gorau a syniadau ar gyfer diwygio'r gyfraith, gan ddechrau ag Awstralia a Seland Newydd. Cymryd rhan yng Nghynhadledd Gyfraith y 5 Cenedl yn Jersey.
	<p>Datblygu ffyrdd newydd o ymgysylltu â'n rhanddeiliaid.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Adeiladu ar weithgarwch ymgysylltu rhithiol sy'n ganlyniad i Covid i ganfod ffyrdd newydd o gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach, er enghraifft, cynadleddau ar-lein, Datblygu canllaw newydd i sicrhau bod diwygio'r gyfraith yn seiliedig ar well dealltwriaeth o'r effaith bosibl ar ystod eang o gymunedau, er enghraifft, gwneud yn siŵr bod ein Datganiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn rhan anhepgor o waith diwygio'r gyfraith.
	<p>Parhau i ddatblygu ein swyddogaeth gyfathrebu i helpu i wneud y gorau o effaith ein gwaith a chyfleu buddiannau diwygio i'r cyhoedd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Adolygu ein gwefan, gan gynnwys gwybodaeth am waith y timau. Gwella allbwn gwaith cymdeithasol i gynyddu ymgysylltiad â'n postïadau. Mae hyn yn cynnwys datblygu ffilmau fideo byrion o bob Comisiynydd yn trafod gwaith posibl ar ddiwygio'r gyfraith a chrynhoi eu cynigion am brosiectau i'w defnyddio ar gyfryngau cymdeithasol. Gwella sut yr ydym yn sicrhau sylw i brosiectau yn y cyfryngau gyda mwy o bwyslais ar sicrhau sylw drwy gydol y cyfnod ymgynghori.

Allbynnau Allweddol 2021-22

Mesur	Yn 2021-22, byddwn yn	
 <p>Datblygu ein ffyrdd o weithio ar gyfer y dyfodol</p>	<p>Gweithio â staff ym mhob rhan o Gomisiwn y Gyfraith i ganfod model newydd o Ffyrdd o Weithio ar gyfer y Dyfodol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Llunio a chynhyrchu holiadur i ganfod barn staff am ddychwelyd i'r swyddfa. • Cynnal sesiynau Cynghreiriaid Iechyd Meddwl i agor y drafodaeth ynglŷn â sut mae staff yn teimlo am ddychwelyd i'r swyddfa. • Cynnal gweithdai i ddwyn themâu ynghyd, a chael syniadau staff am ffyrdd newydd o weithio. • Datblygu model cydlynus a chynaliadwy sydd wedi'u seilio ar hoffterau staff, canllaw'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac arferion gorau sefydliadau eraill. • Parhau i helpu'r Pwyllgor Cymdeithasol i gynnal ei ddigwyddiadau poblogaidd a llwyddiannus i staff - boed yn rhithiol neu wyneb yn wyneb. • Parhau i gefnogi gwaith y Cynghreiriaid Iechyd Meddwl i hybu llesiant yn y sefydliad, gan gynnwys cymorth parhaus wrth i staff ddechrau dychwelyd i'r swyddfa. • Monitro cynnydd tuag at ffyrdd newydd o weithio drwy ganlyniadau'r Arolwg Pobl. • Ymchwilio i hyfforddiant posibl i adlewyrchu dulliau arweinyddiaeth newydd mewn amgylchedd rhithiol a defnyddio adborth 360 gradd i sicrhau ein bod yn deall ei effaith.
 <p>Gwella ein hymagwedd at Amrywiaeth a</p>	<p>Cyflawni ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cwblhau a chyhoeddi'r Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant. • Ail-lansio cynllun cysgodi gwaith amrywiaeth y Comisiynydd i'n helpu i ddod o hyd i Gomisiynwyr y dyfodol. • Ehangu'r cynllun cysgodi gwaith amrywiaeth i dargedu rolau cyfreithwyr tîm hefyd. • Recriwtio cydlynedd amrywiaeth a chynhwysiant i oruchwylio'r holl weithgarwch amrywiaeth a chynhwysiant. • Ymgymryd â gweithgarwch allgymorth i dargedu ysgolion y gyfraith yn well, yn ogystal â pharhau i ymgysylltu ag elusennau cyfreithiol perthnasol. • Trefnu digwyddiadau L&D mewnol i hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant.

Sicrhau bod y cyfraith yn deg, modern ac eglur

Byddwn yn parhau i gyflawni gwaith diwygio'r gyfraith sydd o safon uchel, ar amser ac sydd wedi'i ategu gan asesiad trylwyr o'i efaith. Byddwn yn cydweithio'n glos â'n rhanddeiliaid a Llywodraeth i wneud argymhellion sydd â chefnogaeth eang ac sydd felly â'r siawns orau o gael eu gweithredu yn y dyfodol.



Argymhellion i Lywodraeth

Yn ystod 2021-22, byddwn yn parhau i weithio ar ystod o brosiectau sydd ar waith eisoes, a oedd naill ai'n rhan o Raglen diwygio'r gyfraith, neu yr ymgwymerwyd â hwy fel cyfeiriadau yn y cyfamser. Byddwn yn parhau i weithio ar ddau brosiect gyda phwyslais ar y Gymraeg ac yn chwilio am waith arall er budd pobl Cymru.

Cyfeiriadau prosiectau

Er bod ein model cyllido newydd yn lleihau'r anghenraid ariannol i ganfod cyfeiriadau Gweinidogol newydd, mae'n amlwg yn hanfodol o hyd bod y Comisiwn yn gallu adweithio'n hyblyg i waith blaenoriaeth uchel y bydd Gweinidogion yn gofyn i ni ei wneud. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd disgwyl fel arfer i'r adrannau sy'n noddi dalu costau'r prosiect, ond yn awr yn uniongyrchol i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Byddwn, felly, yn parhau i weithio'n galed i ganfod prosiectau newydd a, phan yn bosibl, cyllid cyfatebol. Mae'n bosibl y bydd Covid-19, a'i effeithiau ariannol, yn amharu ar ein gallu i ganfod prosiectau a fydd yn denu cyllid ond byddwn yn parhau i fod yn dryloyw â'r

Weinyddiaeth Gyfiawnder ynglŷn ag unrhyw anawsterau yn y maes hwn.

14eg Rhaglen

Ym mis Mawrth 2021 lanswyd ein 14eg Rhaglen o ymgynghori cyhoeddus. Bydd yn agored tan 31 Gorffennaf. Yr ymgynghoriad hwn yw un o'r ychydig gyfleoedd sydd gan y Comisiwn i gyflawni ein swyddogaeth statudol i barhau i adolygu holl gyfraith Cymru a Lloegr. Byddwn yn ymgynghori'n eang ar brosiectau posibl i ddiwygio'r gyfraith ac, ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, rydym wedi awgrymu nifer o themâu posibl a all fod yn sail i'r Rhaglen. Y rhain yw:

Technoleg sy'n Datblygu: Bydd angen cynyddol yn y dyfodol am gyfraith sy'n adlewyrchu datblygiadau fel Deallusrwydd Artiffisial (AI) a'r defnydd o algorithmau i wneud penderfyniadau.

Ymadael â'r UE: Gan ein bod wedi ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, mae'n hanfodol ein bod yn gallu dangos i'r byd bod Prydain yn lle da i fyw, gweithio a

buddsoddi ynddo. Bydd eglurder, moderniaeth a hygyrchedd y gyfraith yn helpu i ddiogelu'r safle hwnnw a sicrhau bod gwasanaethau cyfreithiol yn flaenllaw wrth wella cystadleurwydd y DU.

Yr amgylchedd: Mae buddiannau domestig a rhyngwladol eang mewn hyrwyddo diwygiadau i warchod ein hamgylchedd a bydd hyn yn effeithio ar y strwythurau cyfreithiol cyfredol mewn nifer o ffyrdd.

Cydnorthedd cyfreithiol: Mae'r pandemig COVID-19 wedi amlygu meysydd o'r gyfraith sydd wedi dyddio neu sy'n cynnwys gwendidau na allai ddal y pwysau o dan amodau o argyfwng.

Symleiddio: Hoffem glywed am syniadau lle gall symleiddio'r gyfraith arwain at fuddiannau gwirioneddol a pharhaol i unigolion neu sefydliadau.

Yn dilyn ymgynghori manwl byddwn yn gweithio â rhanddeiliaid a chydweithwyr yn Whitehall i fireinio syniadau gyda golwg ar gael cymeradwyaeth yr Arglwydd Ganghellor yng Ngwanwyn neu Haf 2022.

Sut yr ydym ym ymgysylltu â rhanddeiliaid



Rydym yn adnodd gwerthfawr i Lywodraeth sy'n cynnig dadansoddiad cyfreithiol a pholisi arbennigol ac annibynnol.

Dylanwadu ar farn gartref a thramor

Roeddem wedi gobeithio gwneud llawer o waith yn y maes hwn fel rhan o gynllun y llynedd ond, am resymau amlwg, bu'n rhaid cyfyngu ar waith o'r fath. Rydym yn gobeithio manteisio ar dechnoleg i drefnu nifer o weithdai gydag Asiantaethau Diwygio'r Gyfraith eraill ledled y byd i rannu arferion gorau a chryfhau perthnasoedd. Rydym yn rhagweld y bydd y sesiwn gyntaf, yn ystod yr haf neu'r hydref, ag asiantaethau o Awstralia a Seland Newydd. Rydym hefyd yn bwriadu cwrdd â Chomisiynwyr y Gyfraith o Iwerddon, yr Alban a Jersey yn ein cynhadledd flynyddol. Rydym yn gobeithio hefyd y cawn, eleni, gyfraniadau ar ddiwygio'r gyfraith o Ogledd Iwerddon wrth i'r llywodraeth yno gymryd camau i hybu cymorth yn y maes hwnnw.

Hefyd, Rydym yn cyfrannu'n rhyngwladol, er enghraifft, drwy statws arsylwi ar Bwyllgor yr UCC (Uniform Commercial Code), gweithgorau Unidroit a Uncitral, sydd i gyd yn ymwneud â diwygio o ran digideiddio. Rydym yn gobeithio ehangu'r agwedd hon ar ein gwaith yn ystod y flwyddyn, gan wneud yn siŵr ein bod yn flaenllaw mewn datblygiadau cyfreithiol rhyngwladol.

Yn nes at adref, byddwn yn parhau i weithio â'r farnwriaeth, y Senedd a llywodraeth i helpu i

eiriol o blaid diwygio'r gyfraith yn gyffredinol. O bwys arbennig, rydym yn awyddus i gynnal sesiwn gyda Rhif Deg i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith. Mae ein cysylltiadau â Grwpiau Hollbleidiol Seneddol wedi bod yn fuddiol ac rydym yn awyddus i barhau â'r gwaith hwn yn ystod 2021/22.

Hefyd, wrth inni barhau i sicrhau bod ein gwaith ar ddiwygio'r gyfraith o'r safon uchaf, byddwn yn parhau i gryfhau ein perthnasoedd â'r byd academaidd, gan annog ystod eang o sylwadau ar ein hymgyngoriad ar y 14eg Rhaglen.

Ffyrdd newydd o ymgysylltu

Rydym wedi addasu'n gyflym i'r angen i ymgysylltu'n rhithiol â rhanddeiliaid yn ystod Covid. Mae angen inni'n awr ystyried arferion gorau - ein rhai ni a rhai sefydliadau eraill-ynglŷn â sut y gellir ymgorffori dulliau o'r fath yn ein ffyrdd o weithio yn y dyfodol ac, yn allweddol, i ddeall lle mae'r cydbwysedd rhwng ymgysylltu rhithiol ac wyneb yn wyneb. Mae ein profiad hyd yma'n dangos sawl agwedd bositif ar ymgysylltu rhithiol, er enghraifft, gall cyfraddau presenoldeb fod yn uwch gan fod llai o absenoldeb oherwydd yr amser a'r gost sydd ynghlwm wrth deithio i ddigwyddiadau. Gall hefyd helpu i ymgysylltu â chymunedau sy'n anos i'w cyrraedd.

Fodd bynnag, er yn llai mesuradwy, mae angen inni ddeall a yw dyfnder y cyfraniadau a'r trafodaethau yr un fath mewn amgylcheddau rhithiol. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod pobl yn llai galluog a pharod i gyfrannu at drafodaethau cymhleth mewn amgylchiadau o'r fath. Yn yr un modd, gall cyfleoedd syml i gwrdd dros baned fod yn anfesuradwy. Dim ond dechrau mae'r ddadl hon ac mae'n bwysig bod y Comisiwn, fel sefydliad ymgynghorol, yn addasu i'r amgylchiadau newydd rydym sydd bellach yn rhan o'n bywyd.

Asesu effaith diwygio'r gyfraith ar gydraddoldeb

Byddwn yn parhau â'n gwaith i ddatblygu canllaw newydd i sicrhau bod diwygio'r gyfraith yn seiliedig ar well dealltwriaeth o'i effaith ar ystod amrywiol o gymunedau, er enghraifft, gwneud yn siŵr bod ein proses Datganiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn rhan anhepgor o'n gwaith i ddiwygio'r gyfraith a'i bod yn adlewyrchu arferion gorau.

Sut yr ydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid



Rydym yn adnodd gwerthfawr i Lywodraeth sy'n cynnig dadansoddiad cyfreithiol a pholisi arbennigol ac annibynnol.

Cyfathrebiadau

Mae Comisiwn y Gyfraith yn sicrhau bod gan ei brosiectau strategaethau cyfathrebu o ddechrau i ddiwedd y broses a'u bod yn seiliedig ar yr arferion gorau mewn Llywodraeth. Mae datblygiadau diweddar wedi gweld mwy o ddefnydd o ffeithluniau a chrynodebau, sydd i gyd â'r nod o wneud ein prosiectau diwygio'r gyfraith yn fwy hygyrch i gynulleidfa ehangach. Byddwn yn rhoi mwy o bwyslais ar beth o'n gwybodaeth fwy corfforaethol, er enghraifft, adolygu sut yr ydym yn disgrifio gwaith ein timau diwygio'r gyfraith neu gynhyrchu fideos byrion, sy'n cael eu cyflwyno gan Gomisiynwyr, sy'n gwahodd sylwadau ar gyfer gwaith diwygio'r gyfraith, i'w defnyddio ar gyfryngau cymdeithasol.

Datblygu ein ffyrdd o weithio ar gyfer y dyfodol

Mae angen inni gymhwyso arferion gorau o'r llynedd i ddatblygu model newydd sy'n hybu amcanion y sefydliad ac sydd hefyd yn arwain at amgylchedd gweithio sy'n gweithio i'n staff.



Ffyrdd newydd o weithio

Fel y rhan fwyaf o sefydliadau, mae Covid wedi gorfodi Comisiwn y Gyfraith i newid ei arferion gweithio. Rydym wedi addasu'n dda i'r amgylchiadau newydd; fodd bynnag, roedd yn her i lawer ar lefel unigol. Rydym yn gobeithio'n awr bod y gwaethaf o'r pandemig drosodd, ac mae angen inni, fel y rhan fwyaf o sefydliadau eraill, gymryd amser i feddwl am ffordd newydd o weithio. Mae'n amlwg na ellir mynd yn ôl i'r hen drefn. Rhaid i'r dull hwn ddiogelu'r agweddau pwysig - sy'n aml yn anfesuradwy – ar weithio wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, rhaid inni hefyd fod yn barod i adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf fel y bydd gennym fodel cynaliadwy ar gyfer y tymor hwy.

Mi fyddwn yn profi cyfyngiadau ymarferol, fel lefelau sŵn mewn swyddfeydd cynllun agored lle mae cyfarfodydd rhithiol yn digwydd yn rheolaidd. Nid oes gan bawb amgylchedd gweithio addas i'w helpu i weithio o gartref. Ac mae rhai'n mwynhau ochr gymdeithasol eu gwaith. Hefyd, mae rhai materion sydd y tu hwnt i'n rheolaeth, er enghraifft, sut fydd tocynnau trên yn gweithredu yn y dyfodol a'r

posibilrwydd o newidiadau i delerau ac amodau.


Byddwn yn gwneud yn siŵr ein bod yn cymryd amser i wneud hyn yn iawn. Efallai na wnawn ni lwyddo'r tro cyntaf. Rydym wedi ymrwymo i helpu pobl i ddychwelyd i'r swyddfa; mi fydd rhai'n bryderus ynglŷn â dod yn ôl ac felly byddwn yn gweithio â'n holl staff i sicrhau bod hyn yn digwydd yn raddol ac yn sensitif.

Byddwn yn gofyn i staff am eu barn am ffyrdd o weithio yn y dyfodol ac yn cynnal gweithdai i roi cyfle i bawb i rannu eu barn ar fodel y dyfodol, gan gydnabod y bydd ystod eang o safbwyntiau personol a bydd yn rhaid cael cydbwysedd rhwng hyn a beth sy'n gweithio oriau i'r sefydliad.

Mae'n bwysig hefyd ein bod yn monitro cynnydd. Bydd canlyniadau ein Harolwg Pobl – sydd wedi bod yn bositif yn y blynyddoedd diwethaf – yn arbennig o bwysig wrth inni ddod i ddeall sut mae staff yn teimlo am arferion gweithio newydd. Mater pwysig fydd sicrhau bod y berthynas holl bwysig rhwng staff a'u rheolwyr llinell yn cael ei diogelu a, gobeithio, ei gwella. Bydd adborth 360 gradd yn ddull defnyddiol i fesur sut y bydd perthnasoedd yn cael eu heffeithio gan fwy o ymgysylltu rhithiol.

Yn olaf, rhaid inni wneud yn siŵr nad ydym yn colli'r gwerth sy'n dod yn sgil y Rhwydwaith Cymdeithasol o ran gwneud Comisiwn y Gyfraith yn lle braf i weithio, yn ogystal â gwaith y Cynghreiriaid lechyd meddwl i wneud yn siŵr nad ydym yn colli golwg ar neb. Bydd yr agwedd olaf hon o bwys arbennig os bydd pobl yn treulio mwy o'u hamser gartref, sy'n gallu arwain at deimladau o fod yn ynysig.

Gwella ein hymagwedd tuag at Amrywiaeth a Chynhwysiant



Dylai'r Comisiwn ddefnyddio ein enw da i greu cyfleoedd i'r sawl sydd wedi cael eu tangynrychioli'n draddodiadol yn y gyfraith.

Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r Comisiwn wedi gwneud gwaith manwl yn y maes hwn, er enghraifft gyda'n gwaith allgymorth ar gyfer Cynorthwyr Ymchwil y dyfodol a Chynllun Amrywiaeth y Comisiynydd. Aeth peth o'r gwaith hwn yn ei flaen yn ystod 2020-21 ond bu'n rhaid gohirio llawer ohono, a hynny'n bennaf am fod y rhai a oedd wedi'u heffeithio yn gorfod rhoi sylw i feysydd eraill, am resymau dealladwy.

Fodd bynnag, nid ydym wedi sefyll yn ein hunfan. Rydym wedi bod yn gweithio ar ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant, dogfen sydd wedi'i llunio i gyflwyno gweithgarwch amrywiaeth ac ymgysylltu

ystyrlon a realistig, Cyhoeddwyd y ddogfen hon ym Mehefin 2021.

Rydym hefyd wedi sicrhau cyllid i recriwtio Cydlynnydd Amrywiaeth a Chynhwysiant i sicrhau bod ein hymdrechion yn cael eu monitro a'u gwella. Rydym yn gobeithio y bydd unigolyn yn llenwi'r swydd yn ystod Haf 2021.

Rydym wedi bod yn meithrin cysylltiadau fel y gallwn gyflwyno nifer fath o interniaethau cyflogedig i rai a hoffai gael gyrfa yn y gyfraith, Rydym yn gobeithio y bydd y lleoliadau hyn ar gael yn ystod Hydref 2021.

Rydym yn edrych ymlaen at ail-lansio Cynllun Amrywiaeth y Comisiynydd ac at ehangu ei gwmpas i gyrraedd cyfreithwyr a hoffai ddilyn gyrfa gyda'r Comisiwn. Byddwn yn cymryd rhan mewn cynlluniau sydd â'r

nod o helpu'r sawl a hoffai gael gyrfa yn y gyfraith, er enghraifft bydd ein Cadeirydd a'r Cwnselydd Seneddol mewnol yn siarad yng Nghynllun Interniaeth Haf Adran Gyfreithiol y Llywodraeth.

Atodiad A – Adolygu Cynllun Busnes 2020-21

	Targed	Gwirioneddol
Sicrhau bod y gyfraith yn deg, modern ac eglur	Byddwn yn parhau i wneud cynnydd ar brosiectau sydd wedi'u cynnwys o fewn Rhaglen Gyfraith, yn amodol ar gyfyngiadau adnoddau.	Er gwaethaf Covid, mae Comisiwn y Gyfraith wedi parhau i gyflawni prosiectau diwygio'r gyfraith, Er bod oedi wedi digwydd yn achos rhai ohonynt, er enghraifft, oherwydd anawsterau cysylltu â rhanddeiliaid yng nghanau cynnar y pandemig, gwnaethpwyd ymdrechion i gadw'r oedi cyn fyrred â phosibl. Ar y cyfan, mae'r Comisiwn wedi parhau i weithredu'n dda yn ystod 2020-21 o ran gwaith diwygio'r gyfraith.
	Byddwn yn cychwyn ar 1 prosiect sydd â phwyslais ar Gymru.	Mae'r Comisiwn wedi cychwyn ar ddau brosiect sydd â phwyslais ar Gymru yn 2020-21: Rheoleiddo Diogelwch Tipiau Glo yng Nghymru a Thribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru.
	Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau a phapurau ymgynghori pan yn bosibl a phriodol, gan gadw mewn cof y sefyllfa sy'n newid o ganlyniad i COVID-19.	Fel yr uchod, rydym wedi parhau i gyhoeddi adroddiadau ar ddiwygio'r gyfraith ac ymgynghoriadau yn ystod 2020-21. Mewn un neu ddau o achosion gwnaed penderfyniad i oedi prosiect yng nghanau cynnar y pandemig i sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael cyfle i ymgysylltu â ni.
	Byddwn yn gobeithio cynnal cynhadledd ar y cyd â'r byd academiaidd a Llywodraeth ar oblygiadau technegol ymadael â'r UE.	Roedd llawer o waith cynllunio'r gynhadledd wedi'i wneud; fodd bynnag, bu'n rhaid dal yn ôl oherwydd COVID-19. Rydym felly wedi chwilio am ffyrdd eraill o ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn gyffredinol, ac o ran gwaith diwygio'r gyfraith sy'n gysylltiedig ag ymadawiad y DU â'r UE.
	Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n rheolaidd ag adrannau'r Llywodraeth yn Whitehall, y Senedd, y Pwyllgor Cyfiawnder a rhanddeiliaid eraill i ganfod meysydd posibl lle gellid diwygio'r gyfraith.	Cafodd gweithgarwch yn y maes hwn ei effeithio, wrth i'r Comisiynydd, fel llawer o sefydliadau eraill, droi at amgylchedd mwy adweithiol. Yn achos y Comisiwn, penderfynwyd oedi lansio'r 14eg Rhaglen ymgynghori nes byddai modd ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid.
	Byddwn yn cyhoeddi ac yn lansio adroddiad "gwerth economaidd diwygio'r gyfraith".	Llwyddwyd i lansio'r adroddiad hwn, ynghyd â chrynodeb byr ym mis Hydref 2020. Cafwyd sylwadau positif gan rhanddeiliaid nid yn unig yng Nghymru a Lloegr, ond hefyd o dramor. Codwyd proffil yr adroddiad ymhellach am fod yr Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Parhaol y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi tynnu sylw cydweithwyr yn Whitehall ato, gan ofyn iddynt gysylltu â ni i drafod gwaith posibl i ddiwygio'r gyfraith.

Atodiad A – Adolygu Cynllun Busnes 2020-21

	Targed	Gwirioneddol
Sicrhau bod y gyfraith yn deg, modern ac eglur	Byddwn yn cefnogi'r DU yn ystod y cam adfer yn dilyn y pandemig COVID-19.	Mae hyn ar waith ond rydym wedi sicrhau bod yr ymgynghoriad ar gyfer y 14eg Rhaglen yn cynnwys themâu posibl i hybu adferiad, er enghraifft, prosiectau posibl yn ymwneud â chydnerthedd cyfreithiol. Rydym yn trafod syniadau ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys cydweithwyr yn Whitehall.
	Byddwn yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ynglŷn â'n cyfranogiad yng Nghyngor Cyfraith Cymru	Rydym wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Nghymru ond hyd y gwyddom mae cynnydd ar gynigion Cyngor y Gyfraith wedi'u dod i ben dros dro yn ystod 2020-21.
	Byddwn yn parhau i adolygu aelodaeth Pwyllgor Cyngori Cymru i sicrhau ei fod yn cynrychioli buddiannau allweddol y gyfraith yng Nghymru.	Mae aelodaeth Pwyllgor Cyngori Cymru'n cael ei adolygu'n barhaus a chafodd ei ddiweddarau'n ddiweddar.
	Byddwn yn parhau i ddatblygu ac ymgorffori Llawlyfr Diwygio'r Gyfraith yn arferion gweithio Comisiwn y Gyfraith ar bob lefel.	Mae Llawlyfr Diwygio'r Gyfraith yn cael ei gydnabod yn awr fel yr ystorfa ganolog ar gyfer holl arferion gorau diwygio'r gyfraith. Mae bwrdd golygyddol yn adolygu'r cynnwys ac yn gwneud awgrymiadau ar gyfer ychwanegiadau, ac mae hynny'n cael ei wneud hefyd gan holl staff y Comsiwin.
Ymgysylltu a dylanwadu'n effeithiol	Byddwn yn: <ul style="list-style-type: none"> datblygu ymhellach ein cysylltiadau â'r byd academiaidd gyda golwg ar fwy o gydweithredu rhwng Comisiwn y Gyfraith a'r byd academiaidd ymgymryd â gwaith sydd â phwyslais rhyngwladol, gan gynnwys cyfranogi mewn digwyddiadau sy'n ymwneud â rheolaeth y gyfraith gweithio â Chomisiynau'r Gyfraith eraill a chyrrff anllywodraethol i rannu syniadau a phrofiad o ddiwygio'r gyfraith parhau i weithio â'r farnwriaeth, MoJ a FCO i ddatblygu rhaglen fach ond sydd wedi'i thargedu'n ofalus i dynnu sylw at werth diwygio'r gyfraith mewn awdurdodaethau eraill. 	Mae'r Comisiynydd Nick Hopkins wedi arwain y maes gwaith hwn yn ystod 2020-21, sydd wedi arwain at gynlluniau ar gyfer cyd-gynhadledd ag academyddion ym Mai 2021 i drafod syniadau ar gyfer y 14eg Rhaglen. Ni fu llawer o bwyslais ar waith rhyngwladol yn ystod 2020-21, am resymau amlwg. Fodd bynnag, mae cynlluniau ar waith yn awr ar gyfer cyfres o gyfarfodydd rhithiol ag asiantaethau cyfatebol ledled y byd i rannu arferion gorau a syniadau posibl i ddiwygio'r gyfraith. Gobeithiwn roi mwy o bwyslais ar y gwaith hwn yn 2021-22.
	Byddwn yn cymryd rhan mewn cynhadledd sy'n edrych ar effeithiau technoleg sy'n datblygu a deallusrwydd artiffisial ar ddiwygio'r gyfraith.	Nid oedd modd cyflawni'r amcan penodol hwn yn ystod 2020-21; fodd bynnag, rydym wedi ymdrechu i ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol i wella ein dealltwriaeth o'r materion sy'n rhan o'r maes pwysig hwn o ddatblygu'r gyfraith. Cawsom nifer o siaradwyr ar y pwnc hwn yn ein diwrnod cwrdd i ffwrdd.

Atodiad A – Adolygu Cynllun Busnes 2020-21

	Targed	Gwirioneddol
Ymgysylltu a dylanwadu'n effeithiol	Byddwn yn cymryd rhan yng Nghynhadledd Cyfraith y 5 Cenedl yn Jersey.	Yn anffodus, cafodd cynhadledd y 5 Cenedl ei gohirio yn ystod 2020-21 ond mae'n cael ei hail-drefnu ar gyfer hydref 2021.
	Byddwn yn sicrhau bod strategaeth gyfathrebu OASIS ar waith ar gyfer pob prosiect.	Cwblhawyd – byddwn yn sicrhau bod y gwaith hwn yn parhau.
	Byddwn yn adolygu ein gwefan allanol.	Mae'r adolygiad o'r wefan allanol yn aros nes caiff ei hail-ddylunio gan dîm digidol y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ar ôl ei gwblhau, bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein gwefan yn hawdd i'w defnyddio, gan wella proses y defnyddiwr.
	Byddwn yn parhau i gynyddu ein presenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol.	Cwblhawyd ond ar waith – Mae nifer dilynwyr Comisiwn y Gyfraith ar Twitter wedi cynyddu i bron 20,000 (cynnydd o 13%). Mae ein hargraffiadau misol cyfartalog bron 4 gwaith yn fwy na nifer ein dilynwyr, gan gyrraedd 80k y mis. Mae hyn yn dangos effeithiolrwydd ac effaith ein postïadau ar gyfryngau cymdeithasol.
	Byddwn yn adolygu sut yr ydym yn cyhoeddi adroddiadau, gan edrych ar werth ac effaith crynodebau a ddylunnir a sut yr ydym yn cynhyrchu ein dogfennau.	Rydym wedi profi llwyddiant wrth gynhyrchu ein hadroddiadau a'n dogfennau testun plaen ein hunain sy'n arbed amser i'r timau ac sy'n golygu mwy o reolaeth dros yr amserlen gynhyrchu. Mae mwy o brosiectau'n cynhyrchu crynodebau deniadol a mwy effeithiol. Mae'r adborth gan ystod o randdeiliaid wedi bod yn bositif dros ben.
	Byddwn yn datblygu dull digidol o ymgynghori sy'n ymateb i'r amodau cadw pellter cymdeithasol gofynnol yn ystod COVID-19 a thu hwnt.	Mae'r Pennaeth Cyfathrebu wedi gweithio â staff o bob rhan o'r Comisiwn i lunio cynllun manwl ar ymarferoldeb a ffactorau i'w hystyried wrth ymgysylltu'n rhithiol. Bydd yr arweiniad yn bwysig yn y Comisiwn gan nad oes amheuaeth na fydd ymgysylltu o'r fath yn rhan o'n model gweithredu yn y dyfodol. Mae'r cynllun yn destun adolygiad o hyd ac mae'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd i wella effeithiolrwydd ein hymgysylltu rhithiol.

Atodiad A – Adolygu Cynllun Busnes 2020-21

	Targed	Gwirioneddol
Ymgysylltu a dylanwadu'n effeithiol	Byddwn yn hybu effaith a momentwm ein hargymhellion drwy weithio â rhanddeiliaid i ehangu gwmpas ein cyhoeddiadau.	Cwblhawyd ond ar waith – Mae Comisiwn y Gyfraith wedi gweithio'n llwyddiannus â rhanddeiliaid ar nifer o brosiectau i godi ymwybyddiaeth o'r gwaith. Yn benodol, i lansio'r ymgynghoriad ar ddelweddau personol, buom yn gweithio â mudiadau sy'n helpu dioddefwyr ac ymgyrchwyr i sicrhau sylw yn y cyfryngau ac i gynyddu'r effaith ar gyfryngau cymdeithasol.
	Byddwn yn datblygu ac yn cyflwyno strategaeth gyfathrebu fewnol yng Nghomisiwn y Gyfraith.	Cwblhawyd ond ar waith – Mae'r strategaeth gyfathrebu fewnol wedi'i rhoi ar waith yn llwyddiannus ac wrth inni barhau i gyhoeddi ystod i ymgyrchoedd mewnol er budd staff.
Lle da i weithio	Byddwn yn adeiladu ar ganlyniadau positif yr Arolwg Pobl ac adborth ychwanegol o bob rhan o Gomisiwn y Gyfraith drwy weithio â thrawstoriad o staff i ddatblygu a gweithredu camau amrywiol.	Mae canlyniadau ein Harolwg Pobl yn amlwg wedi'u llywio gan amgylchiadau gweithio'r staff yn 2020-21 oherwydd y newid i weithio rhithiol. Er enghraifft, rydym wedi rhoi llawer o bwyslais ar faterion iechyd meddwl yn y Comisiwn a sicrhau ein bod wedi addasu'n gyflym i weithio'n rhithiol drwy roi mwy o weithgareddau cyfathrebu mewnol a chymdeithasol ar waith.
	Byddwn yn adolygu polisi gweithio o gartref Comisiwn y Gyfraith yn dilyn adborth gan staff a phrofiad o weithio o gartref yn ystod y pandemig COVID-19.	Mae'r polisi gweithio o gartref wedi'i ddiddymu erbyn hyn a bydd angen edrych arno o'r newydd yn sgil profiadau 2020-21. Byddwn yn sicrhau ein bod yn ymgysylltu â'r holl staff i lunio model gweithredu'r Comisiwn ar gyfer dyfodol, a fydd yn siŵr o gynnwys elfennau gweithio o gartref.
	Byddwn yn parhau i gynorthwyo'r Pwyllgor Cymdeithasol i redeg ei ddigwyddiadau poblogaidd a llwyddiannus ar gyfer staff.	Mae'n amlwg bod gweithgarwch y Pwyllgor Cymdeithasol wedi'u llywio gan y penderfyniad i weithio o gartref ond mae llawer o waith rhagorol wedi'i wneud i sicrhau bod gan staff opsiynau i gadw mewn cysylltiad. Mae'r Comisiwn yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei holl waith.
	Byddwn yn parhau i gefnogi gwaith y Cynghreiriaid Iechyd Meddwl i hybu llesiant o fewn y sefydliad, gan gynnwys meddwl am ffyrdd o adeiladu ar y profiadau o COVID-19.	Mae'r Cynghreiriaid Iechyd Meddwl wedi gwneud gwaith ardderchog drwy gynnig help a gwybodaeth i staff sydd wedi bod yn profi anawsterau yn ystod y flwyddyn. Fel yr uchod, mae'r Comisiwn yn ddiolchgar iddynt am eu holl waith. Bydd eu cyfraniad yn dal yn bwysig wrth i bobl ddechrau dychwelyd i'r swyddfa.

Atodiad A – Adolygu Cynllun Busnes 2020-21

	Targed	Gwirioneddol
Lle da i weithio	Byddwn yn: <ul style="list-style-type: none"> ail-lansio cynllun cysgodi gwaith amrywiaeth y Comisiynydd i helpu i ganfod Comisiynwyr y dyfodol. ehangu'r cynllun cysgodi gwaith amrywiaeth i dargedu rolau cyfreithwyr tîm hefyd. 	Mae'r Comisiwn wedi penderfynu oedi cyn ail-lansio'r Cynllun gan fod llawer o'r rhai a fyddai wedi dangos diddordeb wedi gorfod rhoi sylw i faterion eraill y bu'n rhaid rhoi blaenoriaeth iddynt. Rydym yn awyddus iawn i ail-lansio'r cynllun pan fydd yn briodol a byddwn yn sicrhau ei fod yn cynnwys y sawl a all fod â diddordeb mewn rôl cyfreithiwr yn y Comisiwn.
	Byddwn yn gweithio â staff i ddatblygu cynllun amrywiaeth a chynhwysiant erbyn mis Mawrth 2021.	Bu oedi cyn lansio'r Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant, ond digwyddodd hynny yn y diwedd ym mis Mehefin 2021.
	Byddwn yn enwebu hyrwyddwr amrywiaeth a chynhwysiant i gynnig awgrymiadau, i baratoi blogiau ac i hwyluso trafodaeth ar y pwnc.	Penodwyd Hyrwyddwr yn ystod y flwyddyn a bydd y gwaith hwn yn cael ei hybu hefyd gan Gydlynnydd Amrywiaeth a Chynhwysiant, swydd weinyddol gyflogedig sydd â'r nod o roi strwythur a chefnogaeth i'r gwaith pwysig hwn. Gobeithiwn y bydd unigolyn wedi'i benodi erbyn Haf 2021.
	Byddwn yn ymgymryd â gweithgarwch allgymorth i dargedu ysgolion y gyfraith yn well, yn ogystal â pharhau i ymgysylltu ag elusennau cyfreithiol perthnasol, trefnu digwyddiadau L&D i hyrwyddo amrywiaeth a chynwysoldeb.	Rydym wedi parhau i ymgysylltu ag ysgolion y gyfraith ond, yn anorfod, bu'n rhaid cyfyngu llawer ar y gwaith, Rydym hefyd wedi bod yn gweithio â sefydliadau allanol i greu cynllun interniaeth cyflogedig i'r rhai hynny sy'n cael eu tangynrychioli yn y gyfraith ac rydym yn gobeithio lansio'r cynllun yn ystod Haf/Hydref 2021.
	Byddwn yn trefnu diwrnod cwrdd i ffwrdd ar gyfer yr holl staff gan roi cyfle iddynt i drafod y prif faterion sy'n wynebu Comisiwn y Gyfraith.	Cynhaliwyd y digwyddiad hwn fel digwyddiad rhithiol fis Rhagfyr 2020. Roedd y digwyddiad yn cynnwys amrywiaeth o sesiynau yn ymdrin â themâu fel technoleg sy'n datblygu ac amrywiaeth a llesiant.
	Byddwn yn trefnu darlithoedd amser cinio sy'n ymdrin â phynciau cyfreithiol a chorfforaethol.	Mae'r Comisiwn wedi trefnu sesiynau amser cinio rheolaidd i staff, a fu'n trafod hil, y Gymraeg ac yn darparu hyfforddiant i gymheiriaid LGBT+.
	Byddwn yn ystyried creu rôl uwch gyfreithiwr yn dilyn trafodaethau â charfan cyfreithwyr Comisiwn y Gyfraith.	Bu'n rhaid oedi'r gwaith hwn wrth i'r Weinyddiaeth ystyried cytundeb cyflog newydd. Yn ddibynnol ar y canlyniad mi all fod yn haws dadlau dros rôl uwch gyfreithiwr.

Atodiad A – Adolygu Cynllun Busnes 2020-21

	Targed	Gwirioneddol
Llywodraethu corfforaethol da	Byddwn yn gweithio â staff i ddeall yr hyn maent yn credu ddylai fod yn flaenoriaethau sefydliadol i Gomisiwn y Gyfraith.	Bu diwrnod cwrdd i ffwrdd y staff yn ystyried blaenoriaethau mwy tymor hir ar gyfer y Comisiwn fel D&I a llesiant. Er gwaethaf yr amgylchiadau anodd, rydym wedi gwneud cynnydd ar rai o'r materion a godwyd yn ystod 2020-21 a byddwn yn parhau i adolygu sut y gall y Comisiwn addasu orau i amgylchiadau sy'n newid, boed o safbwynt gwaith penodol i ddiwygio'r gyfraith neu ffyrdd newydd o weithio.
	Byddwn yn diweddarau ac yn cyfleu gwybodaeth bellach am y Bwrdd.	Mae'r Bwrdd yn rhannu'r holl benderfyniadau a wneir â staff. Nid ydym wedi canfod anghenion ychwanegol ond bydd y mater yn cael ei adolygu'n rheolaidd.
	Byddwn yn gweithredu'r argymhellion a geir yn yr Adolygiad Pwrpasol.	Rydym yn parhau i fonitro Argymhellion yr Adolygiad Pwrpasol ac rydym wedi gwneud cynnydd ar y rai hynny lle mae gan Gomisiwn y Gyfraith reolaeth uniongyrchol drostynt. Rhoddir diweddariadau rheolaidd i'r Weinyddiaeth fel rhan o'r cyfarfodydd Cynnydd Sicrwydd Busnes rheolaidd y mae'r Comisiwn yn eu cynnal â'r Weinyddiaeth.
	Byddwn yn ystyried cyflwyno Bwrdd Rhaglen i oruchwylio portffolio prosiectau Comisiwn y Gyfraith.	Cafodd cynlluniau ar gyfer Bwrdd Rhaglen ei ohirio o ganlyniad i weithio rhithiol a'r flaenoriaeth a roddwyd i waith arall. Byddwn, fodd bynnag, yn rhoi sylw eto i'r maes hwn i gyflwyno proses gymesur sy'n dangos llywodraethu corfforaethol cadarn o ran ein portffolio prosiectau.
	Byddwn yn: <ul style="list-style-type: none"> sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio Kahootz a Citizen Space sy'n gweithredu fel y brif ffynhonnell data ymgynghori ar ddiwygio'r gyfraith yng Nghomisiwn y Gyfraith. Atgoffa staff yn rheolaidd o'n rhwymedigaethu o ran GDPR. 	Mae hyfforddiant wedi'i ddarparu yn y maes hwn ac mae'n rhan o'r broses gynefino i'r holl staff newydd. Cafodd canllawiau Diogelu Data eu diweddarau ddechrau 2021 i adlewyrchu UKGDPR.
	Byddwn yn sicrhau amrywiant cyllidebol blynyddol o +/- 3%	Roedd ein hamrywiant cyllidebol am 2020-21 yn 0.18%.
	Byddwn yn gweithio â'r Weinyddiaeth i gwblhau cynigion ar gyfer model cyllido a gyflwynwyd gan Gomisiwn y Gyfraith ac a argymhellwyd yn yr Adolygiad Pwrpasol.	Roedd y Comisiwn yn falch o ddod i gytundeb cyllido newydd â'r Arglwydd Ganghellor yn ystod 2020-21 ar gyfer 2021-22 ymlaen. Rydym yn credu bod hwn yn gam pwysig ymlaen yn y ffordd mae'r Comisiwn yn cael ei ariannu a bydd yn ein helpu i gynllunio ein gwaith i ddiwygio'r gyfraith yn fwy effeithiol yn y dyfodol. Rydym yn ddiolchgar i bawb a fu'n gysylltiedig â'r gwaith i sicrhau'r Cytundeb.

Atodiad B – Cyhoeddiadau Arfaethedig

Mae Comisiwn y Gyfraith yn gobeithio cyhoeddi'r ymgynghoriadau a'r adroddiadau canlynol yn 2021-22, gan gydnabod ei fod yn dal i weithredu mewn amgylchiadau o gryn ansicrwydd.

	Ymgynghoriad	Adroddiad
Cyfraith Masnach a Chyffredin	<ul style="list-style-type: none"> • Dogfennau masnach electronig • Asedau digidol 	<ul style="list-style-type: none"> • Rhagdaliadau Defnyddwyr: Trosglwyddo perchnogaeth • Dogfennau masnach electronig • Astudiaeth cwmpasu contractau clyfar
Cyfraith Droseddol		<ul style="list-style-type: none"> • Adolygiad o'r Troseddau Cyfathrebu • Troseddau Casineb • Atafaelu Enillion Troseddau • Papur opsiynau Atebolrwydd Troseddol Corfforaethol • Cam-drin Delweddau Personol
Cyfraith Eiddo, Teulu ac Ymddiriedolaeth		<ul style="list-style-type: none"> • Priodasau
Cyfraith Gyhoeddus a'r Gyfraithyng Nghymru	<ul style="list-style-type: none"> • Rheoleiddio Diogelwch Tipiau Glo yng Nghymru 	<ul style="list-style-type: none"> • Cerbydau Awtomataidd • Tribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru • Rheoleiddio Diogelwch Tipiau Glo yng Nghymru

Atodiad C – Cyllideb Ariannol

	Cyllideb 2021-22 (£000)
Costau'r Comisiynydd	560
Costau Staff Cyfreithiol	3,613
Costau Staff Anghyfreithiol	527
Costau eraill, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none">• Dylunio, argraffu a reprograffeg• Digwyddiadau a chynadleddau• Telegyfathrebu• Teithio a chynhaliaeth• Deunyddiau ysgrifenu a swyddfa	286
Cyfanswm y Gwariant	4,986
Cyllid Craidd	4,199
Lleiafswm Gofynnol Incwm	787